Inspection of Youth Offending

Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection

Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Arolygiad Achosion Craidd o waith ym maes troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr

## Adroddiad ar waith gyda throseddwyr ifanc ym:

## **Mro Morgannwg**

ISBN: 978-1-84099-364-6

2010

## Rhagair

Cynhaliwyd yr Arolygiad Achosion Craidd hwn o waith ym maes troseddwyr ifanc ym Mro Morgannwg fel rhan o'r rhaglen o Arolygiadau Troseddwyr Ifanc. Rydym wedi archwilio sampl gynrychioliadol o achosion troseddwyr ifanc yn yr ardal, ac wedi barnu pa mor aml y cafodd yr agweddau Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ar y gwaith eu cyflawni i safon ddigon uchel.

Bu inni farnu bod yr agweddau Diogelu ar y gwaith wedi'u cael eu cyflawni'n ddigon da 65% o'r amser. Gydag agweddau Gwarchod y Cyhoedd, gwnaethpwyd y gwaith i leihau *Risg* pob unigolyn *o achosi Niwed i Eraill* ei wneud yn ddigon da 55% o'r amser, a gwnaethpwyd y gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu ei wneud yn ddigon da 64% o'r amser. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'n darganfyddiadau yng nghorff yr adroddiad hwn, a chrynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Gellir ystyried y ffigurau hyn yng nghyd-destun ein darganfyddiadau o'r ardaloedd a arolygwyd hyd yma. I fyny at heddiw, mae'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Diogelu* wedi bod yn 64%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 38% a 82%, mae'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Risg o Niwed* wedi bod yn 60%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 36% a 85%, ac mae'r sgôr cyfartalog ar gyfer gwaith *Tebygolrwydd o Aildroseddu* wedi bod yn 66%, gyda'r sgoriau'n amrywio rhwng 50% a 82%.

Daethom ar draws tîm lle roedd nifer o faterion yn ymwneud â staffio yn llesteirio perfformiad y tîm. Roedd defnyddio staff anghymwys i reoli achosion cymhleth pan oedd pobl yn absennol yn achosi pryder. Gwelwyd tystiolaeth bod rheolwyr gweithredol yn ceisio eu gorau glas i sicrhau ansawdd yr ymarfer ond nid oeddent yn gwneud hyn yn effeithiol bob amser. Cawsom ein calonogi gan y ffordd gadarnhaol yr oedd rheolwyr achosion yn pwyso a mesur eu hymarfer ac yn ymateb i adborth yr arolygiad. Er bod ambell welliant pwysig wedi'i wneud ers yr ailarolygiad diwethaf, nodwyd bod dal angen rhagor o waith wrth asesu a rheoli *Risg o Niwed* a Diogelu.

Ar y cyfan, teimlwn fod cymysgedd o ddarganfyddiadau yma, ond ni fydd angen ailarolygiad. Gobeithio y bydd yr argymhellion yn helpu GTI Bro Morgannwg i sicrhau gwelliant yn yr ymarfer dros y deuddeng mis nesaf.

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Hydref 2010*

## Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i holl staff y GTI, i aelodau'r Bwrdd Rheoli ac i asiantaethau partner am eu cymorth gyda sicrhau rhediad esmwyth yr arolygiad hwn.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Nigel Scarff* |
| *Arolygydd* | *Iolo Madoc Jones* |
| *Asesydd Arolygiad Achosion Craidd* | *Louisa Jones* |
| *Staff Cefnogi* | *Andrew Trickett* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Catherine Calton; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Alan MacDonald* |

## Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Cydnabyddiaeth | 4 |
| | Sgorio – a Thabl Crynodeb | 6 |
| | Argymhellion | 7 |
| | Y camau nesaf | 7 |
| | Persbectif defnyddwyr y gwasanaeth | 8 |
| | Rhannu arferion da | 10 |
| 1. | ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU | 11 |
| | 1.1 Risg o Niwed i eraill | 11 |
| | 1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu | 12 |
| | 1.3 Diogelu | 14 |
| 2. | DARPARU AC ADOLYGU YMYRIADAU | 16 |
| | 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill | 16 |
| | 2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu | 17 |
| | 2.3 Diogelu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc | 18 |
| 3. | CANLYNIADAU | 20 |
| | 3.1 Sicrhau canlyniadau | 20 |
| | 3.2 Cynnal canlyniadau | 21 |
| | Atodiad 1: Crynodeb | 22 |
| | Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol | 23 |
| | Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad | 24 |
| | Atodiad 3b: Data'r arolygiad | 25 |
| | Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer | 25 |
| | Atodiad 5: Rhestr Termau | 26 |

## Sgorio – a Thabl Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sgoriau canran ar gyfer pob un o'r 'meini prawf ymarfer' sy'n nodi pa mor aml yr oedd pob agwedd ar y gwaith yn cyrraedd y safon yr oeddem yn chwilio amdani. Yn yr arolygiadau hyn rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar agweddau ar y gwaith sy'n ymwneud â Gwarchod y Cyhoedd a Diogelu ym mhob sampl o achosion.

Felly, rydym yn gallu rhoi sgôr sy'n cynrychioli pa mor aml yr oedd agweddau *Gwarchod y Cyhoedd* a *Diogelu* yn yr achosion a aseswyd yn cyrraedd y safon yr oeddem yn chwilio amdani, ac rydym yn crynhoi hynny yma.

Rydym hefyd yn rhoi pennawd 'Sylw' wrth bob sgôr, i nodi a oeddem yn ystyried bod angen i'r agwedd hon ar y gwaith wella **YCHYDIG, RHYWFAINT, YN SYLWEDDOL** neu **YN DRASTIG** yn y dyfodol agos.

| **Sgôr *Diogelu:*** | |
|---|---|
| *Mae'r sgôr hwn yn nodi canran y gwaith Diogelu a oedd, yn ein barn ni, wedi cyrraedd safon uchel ddigonol o ran ansawdd.* Mae'r sgôr yn bwysig i'n helpu i benderfynu a fydd angen arolygiad pellach cynnar. | |
| ***Sgôr:***<br>***65%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd* - sgôr *Risg o Niwed:*** | |
|---|---|
| *Mae'r sgôr hwn yn nodi canran y gwaith Risg o Niwed a oedd, yn ein barn ni, wedi cyrraedd safon uchel ddigonol o ran ansawdd.* Mae'r sgôr yn bwysig i'n helpu i benderfynu a fydd angen arolygiad pellach cynnar. | |
| ***Sgôr:***<br>***55%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

| ***Gwarchod y Cyhoedd* – Sgôr *Tebygolrwydd o Aildroseddu:*** | |
|---|---|
| *Mae'r sgôr hwn yn nodi canran y gwaith Tebygolrwydd o Aildroseddu a oedd yn ein barn* ni wedi cyrraedd safon uchel ddigonol o ran ansawdd. | |
| ***Sgôr:***<br>***64%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

Rydym yn cynghori darllenwyr adroddiadau i beidio â cheisio cymharu sgoriau gwahanol ardaloedd unigol yn rhy fanwl. Nid yw cymariaethau fel hyn o reidrwydd yn ddilys oherwydd bod maint y samplau'n amrywio fymryn, yn yr un modd ag y mae proffil yr achosion yn sampl pob ardal. Credwn ei bod yn well edrych ar y sgôr fel prif grynodeb o'r darganfyddiadau ym mhob ardal unigol, ac fel ffocws i wella ar waith yr ardal honno yn y dyfodol.

## Argymhellion *(*nodir y sawl sy'n bennaf gyfrifol mewn cromfachau)

Mae angen gwneud newidiadau i sicrhau, mewn cyfran uwch o achosion:

(1) bod cynllun ac asesiad amserol ac o ansawdd da, gan ddefnyddio Asset, yn cael eu llenwi pan fydd yr achos yn dechrau (Rheolwr y GTI)

(2) yn benodol, bod asesiad amserol ac o ansawdd da yn cael ei wneud ar y dechrau o fregusrwydd yr unigolyn a *Risg* yr unigolyn o *achosi Niwed i eraill* fel y bo'n briodol i'r achos dan sylw (Rheolwr y GTI)

(3) o ganlyniad i'r asesiad, bod cofnod y cynllun ymyrryd yn bendant ynghylch beth fydd yn cael ei wneud yn awr i ddiogelu lles y plentyn neu'r unigolyn ifanc, i'w gwneud yn llai tebygol o aildroseddu, ac i leihau unrhyw *Risg o Niwed* i eraill sydd wedi cael ei ganfod (Rheolwr y GTI)

(4) bod cynllun gwaith yr achos yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i gofnodi'n gywir yn Asset yn unol â'r safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau troseddwyr ifanc (Rheolwr y GTI)

(5) bod cynlluniau ymyrryd yn ystyried diogelwch dioddefwr ac effaith unrhyw amrywiaeth neu anghenion unigol wrth osod targedau (Rheolwr y GTI)

(6) bod asesiadau *Risg o Niwed* a chynlluniau ac ymyriadau perthnasol yn cael eu hadolygu a'u cofnodi'n gywir yn Asset, yn dilyn newid sylweddol yn amgylchiadau'r plentyn neu'r unigolyn ifanc (Rheolwr y GTI)

(7) bod rheolwyr yn canolbwyntio'n dda ar ansawdd cynlluniau, yn arbennig y cyswllt rhwng cynlluniau a chamau gweithredu o gyfarfodydd rheoli risg mewnol ac allanol (Rheolwr y GTI).

Ar ben hynny:

(8) adolygiad o sut y defnyddir y llyfryn asesu risg a bod unrhyw welliannau sy'n angenrheidiol o ran ymarfer yn cael eu gweithredu (Rheolwr y GTI)

(9) cynnal adolygiad o'r ymarfer o ddyrannu achosion *Risg* uchel *o Niwed* ac achosion cymhleth eraill i staff anghymwys ac ystyried ffyrdd eraill o ddosbarthu gwaith (Cadeirydd y Bwrdd Rheoli).

## Y camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwelliannau i ateb yr argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM bedair wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar yr arolygiad. Ar ôl ei ddrafftio'n derfynol, anfonir y cynllun at y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i fonitro sut mae'n cael ei weithredu.

## Persbectif defnyddwyr y gwasanaeth

### Plant a phobl ifanc

| |
|---|
| Llenwodd tri ar ddeg o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad. |

- Dywedodd dau blentyn ac unigolyn ifanc a chanddynt orchymyn atgyfeirio eu bod yn gwybod beth oedd y contract. Roedd hyn wedi cael ei drafod gyda hwy ac roeddent wedi cael copi.
- Roedd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc yn gwybod beth oedd cynllun goruchwylio neu gynllun dedfrydu. Roedd hyn wedi cael ei drafod gyda hwy ond roedd un unigolyn heb gael copi.
- O blith y plant a'r bobl ifanc hynny a chanddynt orchymyn atgyfeirio, contract neu gynllun goruchwylio, ychydig iawn oedd yn cofio a oedd hynny wedi cael ei adolygu gyda hwy.
- Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y plant a'r bobl ifanc yn gwybod beth oedd yn mynd i ddigwydd pan fyddent yn mynd at y GTI ac roeddent yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt a bod ganddynt wir ddiddordeb i'w helpu. Pan oedd angen help arnynt, roedd y GTI wedi gweithredu.
- Llenwodd ychydig dros hanner y plant a'r bobl ifanc ffurflen *What do YOU think*?.
- Roedd pob plentyn ac unigolyn ifanc yn teimlo bod gweithiwr y GTI wedi ei gwneud yn hawdd neu'n eithaf hawdd iddynt ddeall sut y gallent helpu. Meddai un: *'...siaradodd â mi mewn ffordd aeddfed gan ddangos parch ond roedd ganddo'r ddisgyblaeth hefyd i'm cadw ar y llwybr cywir ac allan o drwbwl...'.*
- Roedd chwe phlentyn ac unigolyn ifanc yn teimlo bod y GTI wedi eu helpu i ddeall eu troseddau a materion yn yr ysgol neu hyfforddiant a chael swydd. Roedd saith o'r ymatebwyr wedi cael cymorth i geisio datrys eu problem gyffuriau ac roedd pump wedi cael cymorth gyda phroblem alcohol.
- Roedd y rhan fwyaf o'r plant a phobl ifanc yn cytuno bod bywyd wedi gwella o ganlyniad i'w gwaith gyda'r GTI, yn arbennig yng nghyd-destun iechyd ac ysgol, coleg neu gael swydd. Dyma'r math o sylwadau a gafwyd: '...*fe ges i swydd yn y diwedd a thorri lawr ar ganabis'* a '*Dwi'n llai ymosodol ac yn fwy aeddfed... dwi'n eistedd ac yn gwrando mwy.'* Dywedodd nifer o ymatebwyr ynghylch lleihau faint o alcohol neu gyffuriau roeddent yn ei ddefnyddio a gwneud ymarfer corff.
- Roedd gwaith y GTI wedi ei gwneud yn llai tebygol y byddai'r plant a'r bobl ifanc yn troseddu yn y dyfodol. Roedd sawl un yn teimlo mai'r rheswm dros hyn oedd eu bod yn gallu rheoli sut roeddent yn defnyddio alcohol neu gyffuriau.
- Ar wahân i un plentyn ac unigolyn ifanc, roedd pawb arall yn fodlon ar y cyfan â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y GTI.

## Dioddefwyr

| |
|---|
| Ceblhawyd wyth holiadur gan ddioddefwyr troseddau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc. |

- Cytunodd pum dioddefwr o'r wyth fod y GTI wedi esbonio'r gwasanaethau roeddent yn eu darparu a'u bod wedi ystyried eu hanghenion unigol.
- Dywedodd chwe dioddefwr eu bod wedi cael cyfle i siarad am unrhyw bryderon oedd ganddynt ynglŷn â'r trosedd neu ynglŷn â'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a oedd wedi cyflawni'r trosedd.
- Roedd tri dioddefwr wedi cael budd o'r gwaith a wnaethpwyd gan y plentyn a'r unigolyn ifanc a oedd wedi cyflawni'r trosedd.
- Dim ond tri dioddefwr o chwech a oedd yn poeni am eu diogelwch a deimlai fod y GTI wedi rhoi sylw i hyn.
- Roedd tri dioddefwr o'r wyth yn fodlon ar y cyfan â'r gwasanaeth gan y GTI. Nid oedd tri dioddefwr yn gwybod a oedd y plentyn a'r unigolyn ifanc wedi cwblhau'r gwaith gwneud iawn yr oeddent yn fod i'w wneud. Byddai tri dioddefwr wedi hoffi cael mwy o gyswllt a chefnogaeth gan y GTI ynghylch ymdopi ag effaith y trosedd ar eu bywydau.

## Rhannu arferion da

Isod rhoddir enghreifftiau o arferion da a welsom yn y GTI.

| | |
|---|---|
| **Darparu ac Adolygu Ymyriadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 2.2a** | Bu rheolwr achos yn gwneud gwaith magu plant gyda theulu yn wirfoddol oherwydd hanes o drais yn y cartref a phryderon ynghylch ymddygiad y plentyn ac unigolyn ifanc yn y cartref. Roedd y fam yn feichiog ar y pryd hefyd. Darparwyd y gwaith magu plant ar sail un-i-un oherwydd anghenion unigol y fam. Roedd cyswllt parhaus gyda'r gwasanaethau plant gyda'r posibilrwydd y byddent yn dod yn rhan yn ddiweddarach. Roedd hyn yn enghraifft o reolwr achos yn mynd i'r afael â materion amrywiaeth mewn modd sensitif wrth ymyrryd. |

| | |
|---|---|
| **Canlyniadau**<br><br>**Maen Prawf Cyffredinol: 3.1a** | Ymosododd Clive, 15 oed yn dreisgar ar unigolyn nad oedd yn ei adnabod gan ddefnyddio cyllell. Dioddefodd y dioddefwr yn seicolegol yn ogystal ag yn gorfforol. Cafodd Clive Orchymyn Cadw dan Glo a Hyfforddi am 12 mis. Cytunodd Clive i gwrdd â'r dioddefwr mewn cynhadledd cyfiawnder adferol. Cyn i Clive gael ei ddedfrydu, cysylltodd y cydlynydd dioddefwyr â'r dioddefwr. Dros sawl mis a phedwar cyfarfod gyda'r dioddefwr, trefnwyd cynhadledd wythnos cyn rhyddhau Clive. Roedd Clive eisoes wedi anfon llythyr yn ymddiheuro ac wedi gweld ei drosedd ar glipiau teledu cylch cyfyng. Roedd Clive dan deimlad yn y cyfarfod a bu'n rhaid iddo adael yr ystafell. Gofynnodd y dioddefwr iddo pam ei fod wedi gadael yr ystafell. Dywedodd Clive ei fod wedi gorfod gadael yr ystafell oherwydd nad oedd yn credu'r hyn roedd wedi'i wneud a'i fod yn wir ddrwg ganddo. Roedd y dioddefwr a Clive yn ddagreuol ac yn emosiynol ar brydiau. Roedd y dioddefwr yn gobeithio y byddai Clive yn newid cyfeiriad ei fywyd. Roedd y rheolwr achos yn rhan o'r broses hon hefyd ac wedi cwblhau gwaith ymwybyddiaeth o'r dioddefwr gyda Clive. Roedd y cydlynydd dioddefwyr a'r rheolwr achos wedi cyflawni'r hyn a oedd, ar y dechrau, yn ymddangos yn amhosib, cyfarfod rhwng Clive a dioddefwr ei drosedd. Roedd y canlyniad yn brofiad grymus dros ben i Clive a ddysgodd mewn ffordd bersonol beth oedd canlyniadau ei drosedd. |

# 1. ASESU A CHYNLLUNIO DEDFRYDAU

| 1.1 Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad RoN (Risg o Niwed) yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn amserol, mae'n ystyried materion dioddefwyr ac yn defnyddio Asset a dulliau asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau wedi eu gosod i reoli'r RoN.* | |
| ***Sgôr:***<br>***59%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cafodd sgrinio am RoND (Risg o Niwed Difrifol) yn defnyddio ASSET ei gwblhau yn 92% o'r achosion. Lle nodwyd bod angen dadansoddiad llawn, cwblhawyd 19 o 23.

(2) Ym mhob achos heblaw un, cafodd dosbarthiad Asset o ran RoND ei gofnodi'n glir ac yn 78% ohonynt roeddem o'r farn ei fod yn gywir.

(3) Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r Cynlluniau Rheoli Risg (CRhR) mewn pryd.

(4) Yn y tri achos lle nad oedd angen CRhR, cydnabuwyd yr angen i roi sylw i faterion posib o *RoN*, a gweithredu yn ei gylch.

(5) Roedd pum achos yn bodloni meini prawf TACAA (Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-asiantaeth). Roedd pob un wedi cael hysbysiad ac wedi'i atgyfeirio at TACAA, os yn briodol. Ym mhedwar achos o'r pump roedd yr hysbysiad a'r atgyfeiriad yn amserol. Yn y pum achos roeddem yn cytuno bod y lefel reolaeth gychwynnol o ran TACAA yn briodol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Nid oedd y gwaith sgrinio ar gyfer RoND wedi'i gwblhau yn brydlon nac yn gywir yn chwarter yr achosion.

(2) Mewn pum achos, roeddem yn meddwl bod y dosbarthiad Asset o ran RoND yn rhy uchel, a'i fod yn rhy isel mewn tri achos. Lle roedd y dosbarthiad yn rhy uchel, canfuwyd bod staff yn rheoli'r achosion hynny fel petaent yn achosion dosbarthiad is. Hynny yw, roeddent yn amau dilysrwydd eu hasesiad eu hunain.

(3) Nid oedd dadansoddiad llawn o'r RoND wedi'i gwblhau yn brydlon mewn bron traean o'r achosion perthnasol. Pan roedd hyn wedi'i gwblhau, nid oedd 13 o 19 wedi'i gwblhau at safon foddhaol yn bennaf oherwydd nad oedd ymddygiad perthnasol blaenorol neu'r risg i ddioddefwyr wedi cael eu hystyried. Mewn naw achos, nid oedd yr asesiad wedi'i seilio'n ddigonol ar yr holl wybodaeth o TACAA neu asesiadau blaenorol gan asiantaethau eraill.

(4) Gwelwyd tystiolaeth bod dau asesiad RoND o saith wedi cael eu hanfon ymlaen at sefydliadau cadw dan glo o fewn 24 awr i'r ddedfryd.

(5) Mewn wyth achos o 24 nid oedd CRhR wedi'i gwblhau. Dim ond 3 o'r 16 CRhR a gwblhawyd a oedd yn ddigon da. Nid oedd swyddogaethau a chyfrifoldebau staff wrth reoli *Risg* plentyn neu unigolyn ifanc *o Niwed* yn glir. Roedd ymatebion cynlluniedig i unrhyw newid o ran *RoN* yn annigonol neu'n aneglur ac ni roddwyd sylw i faterion yn ymwneud â dioddefwyr. Er enghraifft, mewn un CRhR y cam gweithredu pe byddai'r *RoN* yn cynyddu oedd 'gweithredu – fforwm cynllunio achosion brys cyn gynted ag y bo modd.

(6) Gwelwyd tystiolaeth bod rheolwyr wedi goruchwylio 4 asesiad RoND o 28 yn effeithiol ac un CRhR o 24.

(7) Yn 42% o'r achosion perthnasol, nid oedd manylion yr asesiad RoND wedi'u trosglwyddo'n llwyr i'r holl staff ac asiantaethau priodol.

| **1.2 Tebygolrwydd o Aildroseddu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o'r ToA yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn amserol ac yn defnyddio Asset ac offer asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau wedi eu gosod i leihau'r ToA.* | |
| ***Sgôr:***<br>***56%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

## *Cryfderau:*

(1) Roedd y ffactorau a oedd yn gysylltiedig â throseddu ar gyfer plant a phobl ifanc wedi eu hasesu'n brydlon yn 74% o'r achosion. Gwelsom dystiolaeth o ymgysylltu'n weithredol â'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn 87% o'r achosion, a chyda rhieni/gofalwyr yn 82% o'r achosion.

(2) Gwnaethpwyd y rhan fwyaf o'r asesiadau ar sail y ffurflen '*What do YOU think?*', gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, gwasanaethau iechyd corfforol a'r sefydliadau cadw dan glo.

(3) Adolygwyd yr asesiadau cychwynnol ar yr adegau priodol yn 82% o'r achosion.

(4) Roedd gan y mwyafrif o achosion gynllun ymyrryd a chafodd ychydig o dan dri chwarter ohonynt eu cwblhau'n brydlon. Roedd cynlluniau'n rhoi sylw i gamddefnyddio sylweddau (80%); argraff ohonynt eu hunain ac eraill ac agweddau at droseddu (70%); a meddwl ac ymddygiad ac ysgogiad i newid (69%).

(5) Roedd y cynlluniau ymyrryd yn adlewyrchu diben y dedfrydu yn 77% o'r achosion.

(6) Gwelsom dystiolaeth fod sefydliadau cadw dan glo a gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant yn chwarae rhan weithredol ac ystyrlon yn y broses gynllunio.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Nid oedd ansawdd yr asesiad cychwynnol o'r ToA yn ddigonol yn nhraean yr achosion, yn bennaf oherwydd tystiolaeth aneglur neu annigonol neu am nad oedd anghenion amrywiaeth wedi'u nodi. Gwelsom sawl enghraifft o asesiadau a oedd wedi'u dyblygu o Asset diwedd gorchymyn blaenorol. Mewn dau achos, nodwyd bod yr iaith yn nhair adran Asset, er enghraifft, meddwl ac ymddygiad, argraff ohonynt eu hunain ac agweddau at droseddu yn union yr un fath.

(2) Nid oedd asesiadau cychwynnol bob amser yn cynnwys gwybodaeth gan Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE), gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a'r tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

(3) Dim ond 21% o'r achosion oedd â thystiolaeth fod arddull dysgu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi cael ei hasesu.

(4) Gwelsom dystiolaeth fod yr asesiadau wedi cael eu hanfon ymlaen at sefydliadau cadw dan glo o fewn 24 awr i'r ddedfryd mewn pedwar achos perthnasol o ddeg.

(5) Nid oedd y cynllun ymyrryd yn rhoi sylw digonol i'r ffactorau yn gysylltiedig â throsedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn 41% o'r achosion, yn arbennig ffordd o fyw, cymdogaeth a threfniadau byw.

(6) Dim ond ychydig iawn o gynlluniau ymyrryd oedd wedi integreiddio CRhR, wedi cynnwys ffactorau cadarnhaol neu gynnwys arddull dysgu neu anghenion y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Roedd materion diogelu yn cael eu hystyried yn 41% o'r cynlluniau.

(7) Nid oedd hanner y cynlluniau ymyrryd yn adlewyrchu'r safonau cenedlaethol. Nid oedd cynlluniau'n canolbwyntio ar newid y gellid ei gyflawni neu nodau perthnasol. Roedd gan dan chwarter ohonynt amserlenni realistig ar gyfer cwblhau targedau. Roedd y cynllun wedi rhoi siâp clir i'r gwaith o reoli'r gorchymyn yn 63% o'r achosion.

(8) Roedd yr amcanion yn y cynlluniau ymyrryd yn brin ac nid oeddent yn hawdd i blant eu deall. Er enghraifft: *Beth y mae angen ei wneud? Camddefnyddio sylweddau: Sut y gwneir hyn? Apwyntiadau unigol.* Nid oedd dim gwybodaeth am nifer y sesiynau na'u hyd, nac am y cynnwys, a fyddai wedi helpu'r plentyn neu unigolyn ifanc i ddeall yr amcan neu'r hyn a ddisgwylid ohonynt.

(9) Yn hanner y cynlluniau ymyrryd nid oedd yr amcanion wedi'u blaenoriaethu yn ôl *RoN* nac yn cynnwys gwaith Diogelu priodol. Nid oeddent wedi'u trefnu yn ôl anghenion o ran troseddu nac wedi ystyried diogelwch y dioddefwr. Dim ond 32% oedd yn sensitif i faterion yn ymwneud ag amrywiaeth. Nid oedd dim tystiolaeth bod materion yn ymwneud â'r Gymraeg wedi'u trafod gyda phlant a phobl ifanc, ac mewn sawl achos nid oedd y blwch materion amrywiaeth yn y cynllun ymyrryd wedi'i gwblhau.

(10) Mewn ychydig dros hanner yr achosion perthnasol, roedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc neu'r rhieni/gofalwyr wedi bod yn rhan weithredol ac ystyrlon o'r broses gynllunio. Dim ond ychydig o gynlluniau ymyrryd a oedd wedi cael eu llofnodi gan y plentyn a'r unigolyn ifanc. Nid oedd un rheolwr achos yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt gael eu llofnodi a'u hargraffu.

(11) Roedd nifer o asiantaethau yn chwarae rhan lai yn y broses gynllunio ag y dylent fod, yn arbennig Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, gwasanaethau iechyd corfforol, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

(12) Dim ond 57% o gynlluniau ymyrryd a adolygwyd ar adegau priodol.

| **1.3 Diogelu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r asesiad o anghenion Diogelu yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn amserol, ac mae'n defnyddio Asset a dulliau asesu perthnasol eraill. Mae cynlluniau wedi eu gosod i reoli Diogelu ac i leihau bregsurwydd.* | |
| ***Sgôr:***<br>***60%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Cafodd sgrinio ar gyfer bregusrwydd yn defnyddio Asset ei gwblhau ac yn brydlon yn y mwyafrif o'r achosion.

(2) Yn 90% o'r achosion perthnasol, rhoddwyd gwybod i'r sefydliad cadw dan glo am faterion yn ymwneud â bregusrwydd cyn y ddedfryd neu'n syth ar ei hôl. Roedd cysylltiad a rhannu gwybodaeth yng nghyd-destun materion Diogelu yn 80% o'r achosion perthnasol.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Cafodd sgrinio ar gyfer bregusrwydd yn defnyddio Asset ei gwblhau'n ddigon da yn 66% o'r achosion perthnasol.

(2) Roedd 26 achos lle dylid bod wedi cwblhau Cynllun Rheoli Bregusrwydd (CRhB) yn ein barn ni. Fodd bynnag, dim ond 11 a gwblhawyd, ac o'u plith dim ond wyth a gwblhawyd yn brydlon a dim ond dau a ystyriwyd yn rhai o ansawdd digonol. Roedd y Cynlluniau Rheoli Bregusrwydd yn annigonol yn bennaf oherwydd nad oedd swyddogaethau a chyfrifoldebau'r rheini a oedd yn rheoli bregsurwydd y plentyn a'r unigolyn ifanc yn ddigon clir ac roedd ymatebion cynlluniedig ar gyfer unrhyw ffactorau a allai eu gwneud yn fwy bregus yn annigonol neu'n aneglur.

(3) Nid oedd Cynlluniau Rheoli Bregusrwydd yn cyfrannu at ymyriadau na chynlluniau perthnasol eraill yn 80% a 88% o'r achosion yn y drefn honno.

(4) Mewn tri achos o ddeg roedd copïau o gynlluniau eraill (e.e. cynlluniau gofal) ar ffeil mewn achosion perthnasol ac mewn pum achos o ddeg roedd cyfraniad wedi'i wneud drwy CAF i asesiadau a chynlluniau eraill i ddiogelu'r plentyn a'r unigolyn ifanc.

(5) Ni welwyd tystiolaeth yn 79% o'r achosion perthnasol fod rheolwyr yn goruchwylio'r asesiadau bregusrwydd yn effeithiol.

(6) Adolygwyd anghenion diogelu yn briodol yn 66% o'r achosion perthnasol.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Asesu a Chynllunio Dedfrydau: 58%**

**SYLWADAU ar Asesu a Chynllunio Dedfrydau yn gyffredinol:**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae GTI Bro Morgannwg wedi gweld sawl newid o ran staff, absenoldeb oherwydd salwch ac absenoldeb oherwydd seibiant mamolaeth. Nododd y tîm arolygu fod plant a phobl ifanc mewn sawl achos wedi cael tri neu bedwar o wahanol reolwyr achos o fewn cyfnod o rhwng 12 a 18 mis. Roedd yr amrywiadau o ran staff wedi cael effaith negyddol ar ansawdd gwaith y GTI. Roeddem yn bryderus o weld dau aelod anghymwys o staff nad oeddent yn rheolwyr achos yn rheoli achosion cymhleth gan gynnwys plant a phobl ifanc yr aseswyd eu bod yn lefel uchel o ran RoND. Er bod rheolwyr yn rhan o'r mwyafrif o'r achosion, naill ai drwy oruchwylio, y Fforwm Cynllunio Gofal neu archwiliadau gwaith, nid oedd yn effeithiol. Roedd goruchwyliaeth y rheolwyr yn frysiog neu heb gyfeiriad. Roedd rheolwyr yn crynhoi digwyddiadau blaenorol mewn achos yn hytrach nag yn canolbwyntio ar gwestiynau allweddol ynghylch a oedd y *RoN* yn cael ei rheoli neu ei lleihau. Roedd y Cynlluniau Rheoli Risg a'r Cynlluniau Rheoli Bregusrwydd yr oeddem ni wedi asesu eu bod yn annigonol wedi cael eu hadlofnodi.

Roedd Bro Morgannwg yn defnyddio llyfryn asesu risg, dogfen chwe tudalen wedi'i chwblhau â llaw. Roedd yn cynnwys graddfa risg o aildroseddu, crynodeb ac asesiad risg o fregusrwydd a RoND, a CRhR a CRhB. Cwblhawyd y llyfryn ar ôl Asset. Ni welwyd llawer o fersiynau electronig o Gynlluniau Rheoli Risg na Chynlluniau Rheoli Bregsurwydd ar System Gwybodaeth Troseddwyr Ifanc. Y rheswm pennaf dros hyn oedd bod y staff yn defnyddio'r llyfryn asesu risg yn lle hynny. Tan yn gymharol ddiweddar, nid oedd sawl aelod o staff yn gwybod bod System Gwybodaeth Troseddwyr Ifanc yn cynnwys fersiynau electronig o'r cynlluniau. Roedd rhywfaint o ddryswch hefyd ynghylch a ddylai cynllun wedi'i ysgrifennu â llaw gael ei ddyblygu ar System Gwybodaeth Troseddwyr Ifanc. Roedd y Cynlluniau Rheoli Risg a'r Cynlluniau Rheoli Bregsurwydd a gwblhawyd mewn llyfrynnau asesu risg yn annigonol ac mewn rhai achosion roedd y gwahaniaethau rhwng y ddau gynllun yn fach iawn.

## 2. CYFLENWI AC ADOLYGU YMYRIADAU

| 2.1 Gwarchod y cyhoedd drwy leihau'r Risg o Niwed i eraill: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i warchod y cyhoedd drwy leihau Risg y plentyn neu'r unigolyn ifanc o achosi Niwed i Eraill.* | |
| ***Sgôr:***<br>***57%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd penderfyniadau a wnaethpwyd o fewn TACAA wedi cael eu cofnodi'n glir mewn pedwar achos o bump, a dilynwyd a gweithredwyd ar y penderfyniadau hyn mewn dau achos o dri.

(2) Yn dwy ran o dair o'r achosion roedd rheolwyr achos a staff perthnasol eraill y GTI wedi cyfrannu'n effeithiol at y broses TACAA pan oedd y plentyn neu'r unigolyn ifanc dan glo a phan oeddent yn y gymuned.

(3) Yn y mwyafrif o'r achosion perthnasol, dan glo ac yn y gymuned, roedd rheolwyr achos ac aelodau perthnasol eraill o staff wedi cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd aml-asiantaeth eraill.

(4) Cynhaliwyd ymweliadau pwrpasol â'r cartref gydol y ddedfryd yn unol â lefel y *RoN* (78%) a'r materion Diogelu (67%).

(5) Cafodd ymyriadau penodol i reoli'r *RoN* dan glo ac yn y gymuned eu rhoi ar waith fel y bwriadwyd mewn bron i dri chwarter o'r achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y *RoN* wedi'i hadolygu'n drylwyr yn unol â'r amserlenni gofynnol mewn ychydig dan hanner yr achosion perthnasol. Yn dilyn newid sylweddol, dim ond mewn 5 achos o 14 yr adolygwyd y *RoN*. Ni welsom dim Cynlluniau Rheoli Risg a oedd wedi'u hadolygu. Er enghraifft, mewn un achos roedd plentyn neu unigolyn ifanc wedi ymosod ar unigolyn arall ac aelod o staff pan oedd dan glo; fodd bynnag ni wnaeth yr ymddygiad hwn arwain at adolygu'r RoND.

(2) Rhagwelwyd a nodwyd newidiadau mewn *RoN* yn nhraean o'r achosion perthnasol a dim ond mewn 7 achos o 13 y cymerwyd camau priodol.

(3) Ni wnaethpwyd asesiad llawn o ddiogelwch dioddefwyr ac ni roddwyd blaenoriaeth fawr i ddiogelwch dioddefwyr mewn bron i ddwy ran o dair o'r achosion.

(4) Yn chwarter yr achosion, nid oedd adnoddau priodol wedi'u dyrannu yn ôl y *RoN* gydol y ddedfryd.

(5) Adolygwyd ymyriadau penodol i reoli'r *RoN* yn sgil newid sylweddol yn dau achos o dri dan glo ac yn 4 achos o 16 yn y gymuned.

(6) Defnyddiwyd TACAA yn effeithiol mewn tri achos o bump. Cafodd penderfyniadau a wnaethpwyd o fewn TACAA eu hadolygu'n briodol mewn dau achos o bedwar. Ni chafodd camau o gyfarfodydd TACAA eu hymgorfforiadau mewn Cynlluniau Rheoli Risg.

| **2.2 Lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae'r rheolwr achos yn cydlynu ac yn hwyluso cyflenwi strwythur o holl elfennau'r cynllun ymyrryd mewn modd strwythuredig.* | |
| ***Sgôr:***<br>***68%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

## *Cryfderau:*

(1) Cafodd ymyriadau yn y gymuned eu cynllunio er mwyn lleihau'r ToA yn 78% o'r achosion a'u darparu'n unol â'r cynllun ymyrryd yn 68% o'r achosion. Gwelwyd sawl enghraifft mewn ffeiliau achosion o ymarferion gorffenedig yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ddioddefwyr.

(2) Roedd staff y GTI wedi cymryd rhan briodol yn y gwaith o adolygu'r ymyriadau dan glo yn 90% o'r achosion perthnasol.

(3) Yn 84% o'r achosion dyrannwyd adnoddau priodol drwy gydol y ddedfryd yn unol â'r tebygolrwydd o aildroseddu a aseswyd.

(4) Yn y mwyafrif o achosion dan glo ac yn y gymuned, roedd gweithiwr y GTI wedi mynd ati'n weithredol i sbarduno a chefnogi'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ac wedi atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol gydol y ddedfryd.

(5) Gwelwyd tystiolaeth o gyswllt gweithredol gyda rhieni/gofalwyr yn 94% o'r achosion yn y gymuned a 78% o'r achosion dan glo.

## *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Yn 57% o'r achosion, roedd ymyriadau yn y gymuned o ansawdd da ac yn 35% o'r achosion roeddent wedi ystyried arddull dysgu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc. Darparwyd dan hanner yr ymyriadau mewn trefn briodol a'u hadolygu'n briodol, ac roeddent yn cynnwys yr holl faterion yn ymwneud ag amrywiaeth. Ychydig iawn o adborth a oedd gan weithwyr eraill yn y GTI i'r rheolwr achos am y gwaith yr oeddent wedi'i wneud gyda'r plentyn neu'r unigolyn ifanc.

(2) Roedd yr adnoddau a ddyrannwyd yn annigonol mewn pedwar maes gwaith, meddwl ac ymddygiad, agweddau at droseddu, argraff ohonynt eu hunain ac eraill a pherthnasoedd personol a theuluol.

| **2.3 Diogelu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc:** | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Cymerwyd pob cam rhesymol i ddiogelu a lleihau bregusrwydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc.* | |
| ***Sgôr:***<br>***73%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella RHYWFAINT*** |

### *Cryfderau:*

(1) Yn y mwyafrif o'r achosion dan glo ac yn y gymuned, cymerwyd pob cam oedd angen ei weithredu ar unwaith i ddiogelu ac i amddiffyn y plentyn neu'r unigolyn ifanc a chyfeiriwyd achosion angenrheidiol at asiantaethau perthnasol eraill.

(2) Ym mhob achos dan glo ac yn y mwyafrif o'r achosion yn y gymuned, bu gweithwyr y GTI ac asiantaethau perthnasol yn cydweithio i hybu gwaith Diogelu a lles y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Roedd hyn i'w weld yn amlwg gydag Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, sefydliadau cadw dan glo, gwasanaethau iechyd corfforol, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

(3) Gwelwyd tystiolaeth bod gweithwyr eraill y GTI a'r holl asiantaethau perthnasol wedi cydweithio i sicrhau parhad darpariaeth gwasanaethau prif ffrwd wrth symud o fod dan glo i fod yn y gymuned yn y mwyafrif o'r achosion perthnasol. Roedd parhad i'w weld gan amlaf mewn gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant.

(4) Nodwyd a darparwyd ymyriadau penodol i hyrwyddo diogelu ym mhob achos dan glo ac mewn bron i dri chwarter yr achosion yn y gymuned.

(5) Roedd pob aelod o staff perthnasol yn cefnogi ac yn hybu lles y plentyn a'r unigolyn ifanc drwy gydol y ddedfryd ym mhob achos dan glo ac yn 84% o'r rheini a reolwyd yn y gymuned.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Gwelwyd tystiolaeth fod yr holl gamau oedd angen eu gweithredu ar unwaith wedi'u cymryd gan staff y GTI er mwyn diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc eraill yr effeithiwyd arnynt wrth reoli achosion dan glo (50%) ac yn y gymuned (64%).

(2) Yn hanner yr achosion perthnasol cafodd ymyriadau penodol i hybu Diogelu yn y gymuned a dan glo, eu cynnwys mewn Cynlluniau Rheoli Bregsurwydd. Adolygwyd ymyriadau penodol bob tri mis neu'n dilyn newid sylweddol yn dau achos o bump dan glo a 8 achos o 23 yn y gymuned.

(3) Gwelwyd goruchwyliaeth effeithiol y rheolwyr dros Ddiogelu a bregusrwydd mewn traean o’r achosion yn y gymuned a dan glo.

**Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith o Gyflenwi ac Adolygu Ymyriadau: 67%**

**SYLWADAU ar Gyflenwi ac Adolygu Ymyriadau yn gyffredinol:**

Roedd GTI Bro Morgannwg yn defnyddio dull gweithio sy’n seiliedig ar risg. Roedd unrhyw achosion yr aseswyd eu bod yn RoND uchel neu uchel iawn, ToA uchel neu fregus iawn yn cael eu cyfeirio at y fforwm cynllunio achosion. Roedd y fforwm hwn yn cael ei gadeirio gan reolwr ac yn cynnwys y rheolwr achos, gweithwyr arbenigol eraill yn y GTI ac asiantaethau allanol. Aethom ati i arolygu sawl achos a oedd wedi cael eu trafod yn y fforymau cynllunio achosion. Prin iawn oedd y cyfarfodydd lle byddai staff asiantaethau allanol yn mynychu. Weithiau dim ond cadeirydd y cyfarfod a’r rheolwr achos oedd yn bresennol. Nid oedd fformat penodol i’r cyfarfod. Ni chafodd camau o fforymau cynllunio achosion blaenorol eu hadolygu. Yn ôl y drefn roedd gofyn i reolwyr achos ddod â Chynlluniau Rheoli Risg i’r fforymau cynllunio achosion er nad oedd y cofnodion yn cyfeirio o gwbl atynt. Mae’n debygol y byddai llawer o’r camau y cytunwyd arnynt ar gyfer y rheolwr achos wedi cael eu cwblhau ganddynt beth bynnag heb fod angen cyfarfod. Nid oedd camau o fforymau cynllunio achosion wedi’u cynnwys yn y Cynlluniau Rheoli Risg. Yn gyffredinol, roedd fforymau cynllunio achosion yn crwydro o un peth i'r llall ac nid oeddent yn canolbwyntio ar risg na bregusrwydd. Roedd amseriad y cyfarfodydd cynllunio achosion yn ad hoc. Mewn sawl achos roedd y cyfarfod wedi’i gynnal fisoedd ar ôl i’r gorchymyn gael ei wneud ac mewn dau achos cynhaliwyd y cyfarfod ychydig cyn y cyfnod yr oedd cyfraniad y GTI yn dod i ben.

Roedd rheolwyr achos yn ymweld â chartrefi, a oedd yn rhywbeth cadarnhaol. Weithiau, roeddent yn ymweld â’r cartref oherwydd bod y teulu yn byw yn bell oddi wrth y swyddfa. Fodd bynnag, nid oedd yn glir y rhan fwyaf o’r amser beth oedd pwrpas yr ymweliadau cartref. Roedd cofnodion yn y dyddiadur achos yn disgrifio beth ddigwyddodd, pwy oedd yn bresennol a beth ddywedwyd, ond roedd sut oedd yr ymweliad yn cyfrannu at Ddiogelu, rheoli *RoN*, neu leihau’r ToA, yn aneglur.

## 3. CANLYNIADAU

| 3.1 Sicrhau canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu sicrhau yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***56%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella'n SYLWEDDOL*** |

### *Cryfderau:*

(1) Roedd y plant a'r bobl ifanc wedi cydymffurfio â gofynion eu dedfrydau yn 71% o'r achosion.

(2) Cymerwyd pob cam rhesymol i gadw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn ddiogel yn 89% o'r achosion.

### *Meysydd lle mae angen gwella:*

(1) Roedd y *RoN* wedi cael ei rheoli'n effeithiol yn 64% o'r achosion perthnasol*.*

(2) Pan oedd angen, roedd camau gorfodi priodol wedi'u cymryd mewn 7 achos o 11.

(3) Roedd hanner yr achosion a aseswyd gennym wedi gweld lleihad mewn sgoriau Asset. Y ffactorau yn ymwneud â throseddu a oedd wedi lleihau amlaf oedd meddwl ac ymddygiad (37%); agweddau at droseddu (35%); a chamddefnyddio sylweddau (34%).

(4) Yn chwarter yr achosion perthnasol gwelwyd tystiolaeth bod lleihad o ran amlder y troseddu a difrifoldeb y trosedd.

| 3.2 Cynnal canlyniadau: | |
|---|---|
| ***Maen Prawf Cyffredinol:***<br>*Mae canlyniadau'n cael eu cynnal yng nghyswllt RoN, ToA a Diogelu.* | |
| ***Sgôr:***<br>***83%*** | ***Sylw:***<br>***Angen gwella YCHYDIG*** |

### *Cryfderau:*

(1) Rhoddwyd sylw llawn i faterion ailintegreiddio yn y gymuned yn 90% o'r achosion dan glo ac yn 89% o'r achosion yn y gymuned.

(2) Cymerwyd camau i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cynnal yn 90% o'r achosion dan glo ac yn 74% o'r achosion yn y gymuned.


### Y SGÔR CYFFREDINOL ar gyfer ansawdd y gwaith Canlyniadau: 66%

### SYLWADAU ar Ganlyniadau ar y cyfan:

Gwelsom nad oedd Asset wedi'i adolygu na'i ail-sgorio mewn sawl achos hyd yn oed pan oedd lleihad wedi bod yn y ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu. Mewn un achos nid oedd y sgôr ar gyfer camddefnyddio sylweddau wedi newid rhwng dechrau a diwedd y gorchymyn er bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn defnyddio cryn dipyn yn llai o alcohol.

Nid oedd amodau'n ymwneud ag absenoldebau yn cael eu gorfodi bob amser. Un rheswm dros hyn oedd nifer y rheolwyr achos a oedd wedi bod yn gyfrifol am achos. Nid oedd methu â mynychu ym misoedd cyntaf gorchymyn yn cael ei ystyried pan oedd rheolwr achos newydd yn cael ei glustnodi ar gyfer yr achos. Roedd swyddog ar ddyletswydd yn gweld plant a phobl ifanc ar sawl achlysur, weithiau ar ddechrau gorchymyn newydd. Roedd hyn yn debygol o gael effaith negyddol o ran cydymffurfio. Nodwyd hefyd mewn o leiaf tri achos bod awr o waith gwneud iawn yn cael ei wneud gyda phlant a phobl ifanc pan oedd sesiwn wedi'i chanslo oherwydd problemau cludiant neu dywydd gwael.

## Atodiad 1: Crynodeb



## Atodiad 2: Gwybodaeth gyd-destunol

### Ardal

Lleolir GTI Bro Morgannwg yn Ne Cymru.

Roedd gan yr ardal boblogaeth o 119,292 fel y mesurwyd gan Gyfrifiad 2001, ac roedd 11.3% ohoni rhwng 10 a 17 oed. Roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 10.6%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 10.4%.

Prydeinig gwyn oedd poblogaeth Bro Morgannwg yn bennaf (97.8%). Roedd y boblogaeth a oedd o dras pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (2.2%) fymryn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru sy'n 2.1%. Y ffigur cymharol ar gyfer Cymru a Lloegr yw 8.7%.

Roedd nifer y troseddau a gofnodwyd a oedd wedi'u cyflawni gan blant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed ac a derfynwyd cyn y llys neu yn y llys yn 2008/2009, sef 51 ym mhob 1,000, yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr, sy'n 46.

### Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc (GTI)

Roedd ffiniau'r GTI o fewn yr un ffiniau ag ardal Heddlu De Cymru ac Ymddiriedolaeth Prawf Cymru (a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2010). Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd y corff iechyd ar gyfer yr ardal.

Roedd y GTI wedi'i leoli o fewn Adran y Prif Weithredwr. Fe'i rheolwyd gan y Rheolwr Gweithredol, Polisi Corfforaethol a Chyfathrebu.

Y Prif Weithredwr oedd Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r GTI. Roedd y partneriaid statudol i gyd yn mynychu'n rheolaidd.

Lleolwyd gwaith y GTI yn y Barri. Darparwyd y Rhaglen Goruchwylio ac Arolygu Dwys yn fewnol.

### Data am berfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd y crynodeb o ddangosyddion cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid oedd ar gael adeg yr arolygiad yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009.


Roedd perfformiad Bro Morgannwg o ran sicrhau bod plant a phobl ifanc a oedd yn hysbys i'r GTI mewn addysg, hyfforddiant neu waith priodol, yn 76.0%. Roedd hyn yn is na'r flwyddyn gynt, ond yn uwch na chyfartaledd Cymru, sy'n 69.0%.

90.3% oedd lefel eu perfformiad yng nghyswllt sicrhau llety addas erbyn diwedd y ddedfryd. Roedd hyn yn is na'r flwyddyn gynt, ac yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sy'n 96.1%.


85% oedd y 'gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis', uwch na chyfartaledd Cymru sy'n 74% (gweler y Rhestr Termau).

## Atodiad 3a: Siart o ddata'r arolygiad


### Sampl Achosion: Math o Ddedfryd





### Sampl Achosion: Risg o Niwed





### Sampl Achosion: Oed ar ddechrau'r Ddedfryd




### Sampl Achosion: Ethnigrwydd




### Sampl Achosion: Rhyw



## Atodiad 3b: Data'r arolygiad

Cyflawnwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ei wneud ym mis Mehefin 2010

Roedd yr arolygiad yn cynnwys:

- archwilio arferion mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall
- tystiolaeth ymlaen llaw
- ymatebion i holiadur gan blant a phobl ifanc, a dioddefwyr

Rydym hefyd wedi gweld data ar berfformiad ac asesiadau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng nghyswllt y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc hwn.

## Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*2nd Floor, Ashley House*
*2 Monck Street*
*Llundain, SW1P 2BQ*

Mae'r siartiau data sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn ar gael yn electronig drwy wneud cais

## Atodiad 5: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol/Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| Asset | Dull asesu strwythuredig sy'n seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i edrych ar drosedd yr unigolyn ifanc, ei amgylchiadau personol a'r agweddau a'r credoau sydd wedi cyfrannu at ei ymddygiad troseddol. |
| CAF | *Common Assessment Framework* neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu unigolyn ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Mae'n cael ei wneud gan brif weithiwr proffesiynol yr achos, gyda phawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw hefyd yn cyfrannu |
| CAMHS | *Child and Adolescent Mental Health Services* neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf |
| Careworks | Un o ddwy system rheoli achosion electronig ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â throseddwyr ifanc a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler YOIS+ hefyd. |
| SCT | Swyddfa Cofnodion Troseddol |
| DTO | *Detention and Training Order* neu'r Gorchymyn Cadw Dan Glo a Hyfforddi: dedfryd dan glo i bobl ifanc. |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i wella eu rhagolygon gwaith. |
| FTE | *Full-time equivalent* neu Gyfwerth ag Amser Llawn. |
| EM | Ei Mawrhydi. |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai EM. |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyriadau; ymyriadau *adeiladol* a *chyfyngu* | Gwaith gydag unigolyn a ddyfeisiwyd i newid eu hymddygiad troseddol a/neu i helpu i ddiogelu'r cyhoedd.<br>Ymyriad *adeiladol* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.<br>Ymyriad *cyfyngu* yw un lle mai'r prif bwrpas yw lleihau *Risg unigolyn o achosi Niwed i Eraill.*<br>Enghraifft: gyda throseddwr rhyw, gall *ymyriad adeiladol* olygu rhaglen achrededig ar gyfer troseddwyr rhyw; gall *ymyriad cyfyngu* (i leihau'r *Risg o Niwed i eraill)* olygu monitro llety'r troseddwr, ei le gwaith a'r mannau eraill a fynychir ganddo yn ofalus a rheolaidd, ynghyd â gosod a gorfodi cyfyngiadau clir fel sy'n briodol i bob achos.<br>Sylwer Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig |
| ISSP | *Intensive Supervision and Surveillance Programme* neu'r Rhaglen Goruchwylio a Gwylio Dwys: mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth rai gorchmynion a thrwyddedau ar y dechrau ac mae'n darparu o leiaf 25 awr o gyswllt â'r rhaglen yn y lle cyntaf, gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg. |
| ToA | Tebygolrwydd o Aildroseddu. Gweler hefyd Ymyriadau *adeiladol.* |
| LSC | *Learning and Skills Council* neu'r Cyngor Dysgu a Sgiliau. |
| LSCB | *Local Safeguarding Children Board* neu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant: sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgil Deddf Plant 2004) i gydlynu ac i sicrhau bod y gwaith aml-asiantaeth o ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol. |
| TACAA | Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-asiantaeth: lle mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, y gwasanaeth carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd |

| | |
|---|---|
| | yn lleol i reoli troseddwyr sy'n peri *Risg* uwch *o Niwed i eraill* |
| Ofsted | *Office for Standards in Education, Children's Services and Skills* neu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny) |
| PCT | *Primary Care Trust* neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. |
| PPO | *Prolific and other Priority Offender* neu Droseddwyr Mynych a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth: troseddwyr dynodedig, boed yn oedolion neu'n unigolion ifanc, sy'n derbyn sylw ychwanegol gan asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol. |
| Cyn-CAF | Yn syml, 'Cais am Wasanaeth' yw hwn mewn sefyllfa lle nad oes angen Fframwaith Asesu Cyffredin o bosib. Gellir ei ddefnyddio i ofyn am un neu ddau o wasanaethau ychwanegol, e.e. iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg. |
| PSR | *Pre-sentence report* neu Adroddiad Cyn-Dedfrydu: ar gyfer y llys. |
| 'Y gyfradd aildroseddu ar ôl 9 mis' | Mesur a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n nodi faint o droseddau pellach y cofnodir eu bod wedi cael eu cyflawni dros gyfnod o naw mis gan unigolion sy'n cael eu goruchwylio ar y pryd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol, a gall fod yn fwy neu'n llai na 100%.<br>Felly byddai '110%' yn golygu bod union 110 o droseddau pellach wedi eu cyfrif eu bod wedi cael eu cyflawni 'am bob 100 o unigolion dan oruchwyliaeth' dros y cyfnod hwnnw. Y gyfradd gyfartalog genedlaethol ar gyfer Cymru ar ddechrau 2009 oedd 74%. |
| CRhR | Cynllun Rheoli Risg: cynllun i leihau *Risg* yr unigolyn *o achosi Niwed.* |
| *RoN* | *Risg o Niwed i eraill.* Gweler hefyd Ymyriadau *cyfyngu* |
| *'Gwaith RoN, neu 'gwaith Risg o Niwed'* | Dyma'r term a ddefnyddir fel arfer gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio gwaith a wneir i warchod y cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio *ymyriadau cyfyngu*, er mwyn lleihau unrhyw gyfle sydd gan yr unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi *Risg o Niwed i eraill.* |
| RoND | Risg o Niwed Difrifol: term a ddefnyddir yn Asset. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf EM beidio â defnyddio'r term hwn oherwydd nid yw'n helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng pa mor *debygol* yw rhywbeth o ddigwydd ac *effaith / difrifoldeb* y digwyddiad. Mae'r term *Risg o Niwed Difrifol* yn ymgorffori effaith 'ddifrifol' yn unig, tra bod '*Risg o Niwed'* yn golygu y gellir rhoi'r sylw angenrheidiol i'r troseddwyr hynny lle mae ymddygiad niweidiol *sy'n cael llai o effaith / sy'n llai difrifol* yn *debygol*. |
| Diogelu | Gallu dangos y cymerwyd yr holl gamau rhesymol i leihau'r risg bod plentyn neu unigolyn ifanc yn cael niwed. |
| SIFA | *Screening Interview for Adolescents* neu Gyfweliad Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr arbenigol. |
| SQIFA | *Screening Questionnaire Interview for Adolescents* neu Gyfweliad Holiadur Sgrinio ar gyfer y Glasoed: offeryn sgrinio iechyd meddwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w ddefnyddio gan weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc. |
| CRhB | Cynllun Rheoli Bregsurwydd: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio. |
| BCI | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. |
| STI | Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad gan y Gwasanaeth Carchardai i bobl ifanc sydd ar remand yn y ddalfa neu sydd wedi cael dedfryd dan glo. |
| YOIS+ | *Youth Offending Information System* neu'r System Gwybodaeth Troseddwyr Ifanc: un o ddwy system rheoli achosion electronig ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â throseddwyr ifanc a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd. Gweler hefyd Careworks. |
| GTI/TTI | Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc / Tîm Troseddwyr Ifanc |

© Hawlfraint y Goron

Arolygiaeth Prawf EM
6th Floor Trafford House
Chester Road
Stretford
Manceinion
M32 0RS
Ffôn - 0161 869 1300

Mae fformatau eraill ar gael drwy wneud cais.

ISBN 978-1-84099-364-6